Enw



DARLLENWCH
Genesis 27: 1-29

*Mae'r stori yma'n sôn am:*
**Jacob yn twyllo'i dad a'i frawd**

# Stori 2 Jacob yn twyllo'i dad



Pan oedd Isaac yn hen, aeth yn ddall. Roedd arno eisiau i Esau, ei hoff fab, wneud pryd o fwyd iddo. Roedd arno eisiau bendithio Esau hefyd.

"Cer i hela anifeiliaid gwyllt i wneud bwyd i mi," meddai Isaac, "ac fe wnaf i dy fendithio di."

Roedd Rebeca'n gwrando. Roedd arni hi eisiau i Jacob, ei hoff fab hi, gael y fendith. Dywedodd wrth Jacob am ladd dwy afr er mwyn iddi hi gael gwneud bwyd i Isaac.

Meddyliodd Jacob am broblem. "Os bydd fy nhad yn cyffwrdd â mi," meddai, "bydd yn gwybod nad Esau ydw i. Mae fy nghroen i yn llyfn a chroen Esau yn flewog."

"Gwna fel dw i'n ei ddweud," meddai Rebeca. Roedd Rebeca a Jacob yn mynd i dwyllo Esau.

Pan oedd y bwyd yn barod, rhoddodd Rebeca groen y geifr dros wddf a dwylo Jacob. Gwisgodd Jacob ddillad Esau ac aeth â'r bwyd i Isaac.

Doedd Isaac ddim yn siwr pwy oedd yno!

**I gael gwybod, lliwiwch y sgwariau sydd â smotyn ynddyn nhw.**

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • | • | • | | | • | | | | • | | | | • | | | • | • | |
| | • | | | • | | • | | • | | • | | • | | • | | • | | • |
| | • | | | • | • | • | | • | | | | • | | • | | • | • | |
| | • | | | • | | • | | • | | • | | • | | • | | • | | • |
| • | • | | | • | | • | | | • | | | | • | | | • | • | |

Rhoddodd Isaac y fendith i Jacob. Pan ddeallodd Esau beth oedd wedi digwydd, roedd yn drist ac yn ddig iawn. Roedd Isaac yn drist ac yn ddig hefyd.

10